# PWYLLGOR DEDDF YSTÂD YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 22 Medi, 2025.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, C.M. Cowpe, E.J. Goodjohn ac M.J.G. Morgan.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd J.E. Charles.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin, 2025 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. TIR YN HEOL SANT OSWALD, CADOXTON, Y BARRI (CAC) –

PENDERFYNWYD – BOD yr Ymddiriedolaeth yn gofyn i'r Rheolwr Gweithredol (Eiddo) geisio gwerthusiad manwl o'r safle drwy Wasanaeth cyn-ymgeisio'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn cael cyngor cyn-ymgeisio ffurfiol i lywio prosesau gwneud penderfyniadau'r Ymddiriedolaeth, ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad, a'r drafodaeth Rhan II ddilynol.

EITEM AGENDA 5. TIR YN GLEBE FIELDS, SILI – CAIS YMCHWILIAD I LAWNT TREF A PHENTREF (CAC) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r diweddariad ynghylch y Cais am Lawnt y Dref a’r Pentref hyd nes y cyflwynir adroddiad pellach i’r Ymddiriedolaeth ar yr amser priodol.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad.

EITEM AGENDA 6. DIWEDDARIAD BUDDSODDI (CAC) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r canllawiau a'r opsiynau a amlinellir yn yr adroddiad tra bo cyngor pellach yn cael ei gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad mewn perthynas ag egwyddorion eang ar gyfer Polisi Rheoli Buddsoddiadau diwygiedig, ystyried y Sefyllfa Rheoli Buddsoddiadau yng nghyd-destun Canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar Fuddsoddi Arian Elusennau.

EITEM GENDA 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2024/25 (CAC) –

PENDERFYNWYD – BOD yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2024/25, fel y'u nodir yn Atodiad A i'r adroddiad, yn cael eu cymeradwyo, a bod y Cadeirydd yn cael ei awdurdodi i'w lofnodi ar ran yr Ymddiriedolwyr.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, a Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008.